

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg
Llywodraeth Cymru

22 Chwefror 2019

Annwyl Kirsty

Datblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru

Diolch am eich **llythyr** yn dilyn sesiwn y Pwyllgor ar 10 Ionawr 2019 ynghylch datblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru.

Fel y gwyddoch, ysgrifennodd **y Pwyllgor at CLILC a CCAC**, gan ofyn am sylwadau pellach ganddynt ar y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd ganddynt ar y cyd a'ch ymateb iddi yn y **Pwyllgor ar 10 Ionawr**. Cafwyd ymatebion gan **CLILC a CCAC** ar 31 Ionawr, ac fe rannwyd y rhain â'ch swyddfa. Yng nghyfarfod y Pwyllgor yr wythnos hon, trafododd yr Aelodau'r ymatebion a'r ohebiaeth flaenorol ynghyd â'r sylwadau pellach ynghylch tystiolaeth ysgrifenedig CLILC a CCAC a wnaed gennych yn y **Cyfarfod Llawn ar 29 Ionawr**.

Mae CLILC a CCAC yn nodi yn eu hymatebion eu bod yn gefnogol i drywydd y diwygiadau i'r cwricwlwm a'r weledigaeth a nodir yn adroddiad yr Athro Donaldson, *Dyfodol Llwyddiannus*. Maent hefyd yn nodi eu bod wedi ymrwmo i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru mor llawn â phosibl yn y maes allweddol hwn. Fodd bynnag, maent yn haeru bod eu hymateb ar y cyd i alwad y Pwyllgor am dystiolaeth ar gynnydd o ran datblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru yn seiliedig ar ymgynghoriad â'r 22 awdurdod lleol a'i fod yn adlewyrchu barn cyfarwyddwyr addysg, sydd yn ei dro yn adlewyrchu barn arweinwyr ysgolion.

Maent hefyd yn nodi bod y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd ganddynt ar y cyd cyn y sesiwn graffu ar 10 Ionawr (a gafwyd ym mis Rhagfyr 2018) yn seiliedig ar y wybodaeth a oedd ar gael iddynt ar y pryd. Nid yw'n glir a yw hyn yn cyfeirio at y fersiynau o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad drafft a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018 ynteu at y fersiynau diweddarach a rannwyd â'r rhai a fu'n ymwneud â dylunio cwricwlwm yn ystod yr hydref.




Yn ogystal â'r materion a godwyd yn yr ohebiaeth hon, ymddengys hefyd fod gwahaniaethau sylweddol rhwng safbwyntiau CLILC a CCAC, consortia rhanbarthol, a'ch tystiolaeth eich hunan ynglŷn â chynnydd mewn perthynas â diwygio'r cwricwlwm, ac o ran cryfderau ac ansawdd yr hyn a gynhyrchwyd hyd yn hyn. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad ydyw mewn sefyllfa i gyflwyno sylwadau ar y gwahanol safbwyntiau heb weld manylion y cynlluniau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Serch hynny, mae'r Aelodau'n awyddus i weld pob parti yn cyflawni ei wahanol ymrwymadau i wella'r cyfathrebu rhyngddynt. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod hyn yn angenrheidiol fel y gall pawb yn y sector weithio tuag at weledigaeth gyffredin a dealltwriaeth o ran diwygio'r cwricwlwm, ac er mwyn cyflawni'r weledigaeth gyffredin mewn partneriaeth wirioneddol.

Yng ngoleuni'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'r Pwyllgor yn pryderu am y diffyg cysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol o ran y diwygiad addysg hanfodol hwn. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o gofio bod y dyddiadau allweddol, sef Ebrill 2019 (cyhoeddi'r cwricwlwm drafft) a Ionawr 2020 (cyhoeddi'r cwricwlwm terfynol), yn agosáu.

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda chi ar yr agenda bwysig hon ac at graffu ymhellach ar y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'n fwriad pendant gan y Pwyllgor fonitro yn agos y cynnydd a wneir o ran diwygio'r cwricwlwm, gan gynnwys y pryderon a amlygir gennym yn y llythyr hwn, ac yn edrych ymlaen at ganlyniadau eich ymgynghoriad cyfredol ar y Papur Gwyn ar ddiwygio'r cwricwlwm.

Yn gywir



Lynne Neagle AC
Cadeirydd

